# Cwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 17 Hydref 2003

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dynodir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

## *Gofyn i Brif Weinidog Cymru*

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff y Prif Weinidog ddarparu rhestr o bob taith dramor gan bob Gweinidog yn y Cabinet ar fusnes Llywodraeth y Cynulliad rhwng 1 Ionawr 2002 a 30 Medi 2003. (WAQ29062)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff y Prif Weinidog roi'r rheswm dros bob un o ymweliadau tramor Gweinidogion y Cabinet rhwng 1 Ionawr 2002 a 30 Medi 2003, a'r gost. (WAQ20963)

**Michael German (Dwyrain De Cymru);** Faint o weithiau yn ystod y deuddeng mis diwethaf y cynrychiolwyd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn y cyfarfodydd wythnosol ar ddydd Gwener â Chynrychiolaeth Barhaol y DU yn yr Undeb Ewropeaidd ac Ysgrifenyddiaeth Ewropeaidd Swyddfa'r Cabinet. (WAQ20964)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth*

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru)** A yw'r Gweinidog yn gwybod am unrhyw gynlluniau i ledu'r A470 i'r gogledd o Gyffordd 32 yng Nghaerdydd, neu a yw'n bwriadu ariannu cynllun o'r fath. (WAQ29061)

**Alun Ffred Jones (Caernarfon);** A wnaiff y Gweinidog ddatgan manylion ynglyn â chynllun gwariant o'r Gronfa Adfywio Lleol am y tair blynedd nesaf. (WAQ29063) **W**

**Alun Ffred Jones (Caernarfon);** A wnaiff y Gweinidog egluro'r rhewi ar wariant o'r Gronfa Adfywio Lleol. (WAQ29064) **W**

**Alun Ffred Jones (Caernarfon);** A wnaiff y Gweinidog roi manylion ynglyn â gwariant o'r Gronfa Adfywio Lleol ym mhob Awdurdod Lleol. (WAQ29065) **W**

**Alun Ffred Jones (Caernarfon);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynglyn â phwysigrwydd y Gronfa Adfywio Lleol fel ffynhonnell o arian cyfatebol i Gronfeydd Strwythurol Ewrop. (WAQ29066) **W**

**Alun Ffred Jones (Caernarfon);** A wnaiff y Gweinidog ddatgan manylion ynglyn â chyfanswm gwariant o'r Gronfa Adfywio Lleol yn ystod y tair blynedd diwethaf. (WAQ29067) **W**

**Alun Ffred Jones (Caernarfon);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynglyn â chodi'r rhewi ar wariant y Gronfa Adfywio Lleol. (WAQ29068) **W**

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol*

**Michael German (Dwyrain De Cymru);** A all y Gweinidog esbonio pam y torrwyd y £2 filiwn a gyhoeddwyd ar gyfer gwasanaethau cardiaidd yn Ymddiriedolaeth Gofal Iechyd Gwent i £750,000, ac i ble y neilltuwyd y £1.25 miliwn sy'n weddill. (WAQ29060)